RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 105/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 16/11/2023

# Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: Bwletin ymchwil

## Prif ganfyddiadau arolwg o arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr

### 1. Y cefndir

1.1 Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau arolwg o arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr ynghylch gweithredu'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol yn eu lleoliadau dysgu.

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol'[1] yn 2021 fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethu meithrinfeydd, ysgolion cynradd, uwchradd a chanol (pob oed) a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Nod y Fframwaith yw darparu cyfeiriad a thempled i leoliadau er mwyn diwallu anghenion llesiant emosiynol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc, yn ogystal â staff fel rhan o'r gymuned gyfan. Mae'n ceisio helpu lleoliadau addysg i adolygu eu sefyllfa llesiant eu hunain a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau, drwy ddull o wella parhaus.

1.3 Mae'r Fframwaith yn amlinellu sawl cam y bydd uwch dîm arweinyddiaeth ysgol yn eu dilyn wrth weithredu eu dull ysgol gyfan. Mae'r camau yn cynnwys hunanwerthuso cryfderau ac anghenion (*cam cwmpasu*), ac yna *cynllunio camau gweithredu* i fynd i'r afael â bylchau a manteisio ar gryfderau, *gweithredu'r* cynllun gweithredu a *gwerthuso* effeithiolrwydd, gan arwain at *wella parhaus* wrth i ganfyddiadau'r broses werthuso gael eu defnyddio i wella dull gweithredu yr ysgol.

1.4 Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu adnodd hunanwerthuso i helpu ysgolion yn ystod y cam cwmpasu i asesu eu cryfderau a'u hanghenion llesiant, a all wedyn gyfrannu at gynllun gweithredu'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i benodi arweinwyr gweithredu lleol ar gyfer dull gweithredu ysgol gyfan. Bydd yr arweinwyr hyn, gyda chymorth tîm lleol Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach, yn helpu ysgolion i gwblhau'r broses hunanwerthuso ac

[1] Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

yn cynorthwyo gyda'u hanghenion ehangach mewn perthynas â datblygu a chyflawni eu dull ysgol gyfan.

1.5 Mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru yn flaenoriaeth. Cyn y pandemig, roedd tystiolaeth yn dangos bod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc y DU yn dirywio[2]. Mae'n debygol bod y pandemig a'r mesurau lliniaru cysylltiedig wedi gwaethygu'r problemau iechyd meddwl a llesiant ymysg plant a phobl ifanc.

1.6 Gan ystyried pa mor gyffredin yw problemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc, mae data'r GIG ledled y DU[3] yn dangos bod gan un o bob chwech (17 y cant) o'r rhai 6-16 oed yn Lloegr anhwylder iechyd meddwl tebygol, sydd wedi cynyddu o un o bob naw (12 y cant) yn 2017. Yn ogystal, dywedodd tua dau o bob pump (39 y cant) o blant a phobl ifanc bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu dros y cyfnod hwn. Gwelwyd gostyngiad tebyg yn iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru (Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)[4].

### Nodau'r ymchwil

1.7 Er mwyn deall cynnydd ysgolion a lleoliadau addysg wrth ddatblygu a chyflawni eu dull ysgol gyfan, cynhaliodd swyddogion o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) Llywodraeth Cymru arolwg ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2023 a oedd yn agored i bob ysgol a gynhelir. Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar brif ganfyddiadau'r arolwg.

1.8 Roedd yr arolwg yn gwahodd ymatebion gan arweinwyr ysgolion (aelodau o uwch dîm rheoli'r ysgol gan gynnwys penaethiaid, penaethiaid cynorthwyol, neu ddirprwy benaethiaid) ac arweinwyr llesiant ar ran eu lleoliadau dysgu.

1.9 Bwriedir i ganfyddiadau'r arolwg gyfrannu at benderfyniadau polisi a helpu i gyflawni'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn effeithiol.

1.10 Nodau ymchwil yr arolwg oedd:

- Mapio cynnydd ysgolion wrth ddatblygu eu dull ysgol gyfan a'i roi ar waith,
- Archwilio i ba raddau mae'r ysgolion wedi cael cefnogaeth i ddatblygu eu dull gweithredu a'i roi ar waith,
- Archwilio'r defnydd o adnoddau perthnasol gan ysgolion,
- Deall sut mae cynnydd ysgolion, yn ogystal â'r cymorth a gawsant a'u defnydd o adnoddau, yn amrywio yn seiliedig ar nodweddion yr ysgolion.

## 2. Methodoleg

2.1 Gwahoddodd yr arolwg ymatebion gan aelodau o uwch dimau rheoli ac arweinyddiaeth, a/neu staff arweiniol iechyd a llesiant mewn ysgolion a gynhelir.

2.2 Datblygwyd yr arolwg gan KAS drwy drafodaethau gyda swyddogion polisi, yn ogystal â thrwy gydweithio â rhanddeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn

[2] Mental Health of Children and Young People in England, 2017 [PAS] - NHS Digital

[3] Mental Health of Children and Young People in England 2021 - wave 2 follow up to the 2017 survey - NHS Digital

[4] Iechyd meddwl a lles ieuenctid yng Nghymru: Cymharu canfyddiadau o arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019 a 2021 gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

enwedig Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a phartneriaid academaidd.

2.3 Hefyd, cynhaliodd KAS gyfweliadau gwybyddol gyda grŵp bach o arweinwyr neu gyn-arweinwyr timau uwch mewn lleoliadau addysg i brofi a gwella cwestiynau'r arolwg. Holwyd cwestiynau'r arolwg yn ystod y cyfweliadau hyn a gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddisgrifio eu dehongliad o’r hyn a holwyd a’u rhesymeg wrth ateb. Diweddarwyd cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar yr adborth o'r cyfweliadau hyn.

2.4 Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu ar-lein drwy rannu dolen ar rwydweithiau a mannau eraill perthnasol (ee Hwb, Dysg, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), a'i rannu hefyd ar sianeli cyfathrebu Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg drwy SmartSurvey yn Gymraeg a Saesneg.

2.5 Dewiswyd y dull hwn gan ei fod yn caniatáu i'r arolwg gael ei rannu'n eang trwy amrywiaeth o sianeli i sicrhau bod y rhan fwyaf o ysgolion yn debygol o gael y cyfle i ymateb, er bod hynny yn golygu bod y sampl yn un wedi'i hunan-ddethol ac nid o reidrwydd yn gwbl gynrychioladol.

2.6 Lle darparwyd mwy nag un ymateb ar gyfer ysgol, dim ond ymateb yr aelod staff uchaf a gynhwyswyd yn y dadansoddiad er mwyn ceisio sicrhau cynrychiolaeth gyfartal gan yr ysgolion a ymatebodd, ac ar y dybiaeth eu bod yn debygol o fod â mwy o ymwybyddiaeth strategol o ymagwedd gyffredinol yr ysgol gyfan.

## 3. Sampl

3.1 Cafwyd cyfanswm o 152 o ymatebion. Ar ôl i ddyblygiadau gael eu dileu, cafodd 136 o ymatebion eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae'r holl baragraffau dilynol yn cyfeirio at y sampl hon o 136 o ymatebion.

3.2 Yn darparu'r ymatebion hyn, roedd 68 y cant o'r ymatebwyr yn benaethiaid / penaethiaid dros dro, penaethiaid cynorthwyol, neu'n ddirprwy benaethiaid.

3.3 Roedd gweddill yr ymatebwyr yn cynnwys athrawon pwnc / athrawon dosbarth (10 y cant), penaethiaid cyfnod, blwyddyn neu adran (8 y cant), CADY (6 y cant), arweinwyr iechyd a llesiant (4 y cant), cynorthwywyr addysgu lefel uwch (3 y cant), ac eraill (1 y cant).

### Sampl o'r ysgolion

3.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu cyfeirnod eu hysgol i nodi eu hysgol. O'r 136 ymateb, roedd 63 y cant yn dod o ysgolion cynradd, 1 y cant o ysgolion canol (pob oed), 13 y cant o ysgolion uwchradd, 6 y cant o ysgolion arbennig, ac 16 y cant heb fod yn hysbys (lle na ddarparwyd cyfeirnod cywir gan yr ysgol).

3.5 Roedd cyfran uwch o'r ymatebion i'r arolwg yn dod o'r De-orllewin a'r Canolbarth (26 y cant) a Chanolbarth y De (26 y cant) na'r De-ddwyrain (16 y cant) a'r Gogledd (15 y cant). Fel cyfran o nifer yr ysgolion ym mhob ardal ddaearyddol, roedd y cyfraddau ymateb fel a ganlyn: y De-orllewin a'r Canolbarth, 8 y cant; Canolbarth y De, 9%; y De-ddwyrain, 9 y cant, a'r Gogledd, 5 y cant.

3.6 Cafodd ysgolion â chyfraddau uchel ac isel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu cynrychioli'n briodol yn y sampl. Roedd 23 y cant o'r sampl ysgolion ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac roedd 24 y cant ymhlith y rhai â'r gyfran uchaf o ddysgwyr ag ADY.

3.7 Hefyd, roedd 60 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn rai prif ffrwd cyfrwng Saesneg ac roedd 18 y cant yn brif ffrwd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Cafodd gweddill yr ysgolion eu categoreiddio fel ysgolion arbennig (6 y cant) neu ddim yn hysbys (16 y cant). Fel cyfran o'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd yr ymatebion yn cynrychioli 8 y cant. Y gyfran ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog oedd 6 y cant.

## 4. Cyfyngiadau

4.1 Dylid dehongli'r canfyddiadau gan ystyried y cyfyngiadau canlynol.

4.2 Roedd y canfyddiadau yn seiliedig ar 136 o ymatebion i'r arolwg ac efallai nad ydynt yn cynrychioli'r darlun yn llawn ar draws holl ysgolion Cymru:

- Nid oedd cyfanswm o 16 y cant o'r ymatebion i'r arolwg yn cynnwys cyfeirnod cywir i'r ysgol ac felly nid oedd yn bosibl nodi gwybodaeth eu hysgol.
- Y gyfradd ymateb ar gyfer pob ysgol gynradd oedd 7 y cant (86 ymateb) a 10 y cant (18 ymateb) ar gyfer pob ysgol uwchradd[5].
- Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer y Gogledd yn is na rhanbarthau eraill.
- Roedd y gyfradd ymateb ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn is nag ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

4.3 Cafodd yr arolwg ei ddosbarthu ar-lein trwy ddolen. Ni allwn fod yn sicr o rôl yr ymatebwyr na lefel eu gwybodaeth o ymagwedd eu hysgolion.

4.4 Pan fo'r nifer sy'n ymateb yn fach, mae'r canrannau'n destun amrywiadau llawer mwy, a dylid eu dehongli'n ofalus (e.e. data gan ysgolion uwchradd).

## 5. Canfyddiadau

5.1 Mae'r canfyddiadau isod yn gysylltiedig â'r ymatebion a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad (un ar gyfer pob ysgol a ymatebodd).

### Cynnydd ysgolion

5.2 Dywedodd ymatebwyr fod eu hysgolion ar wahanol gamau o ddatblygu eu dull ysgol gyfan, gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn dweud amlaf eu bod wedi cyrraedd y cam cynllunio (ychydig o dan un o bob tair ysgol gynradd a thros un o bob tair ysgol uwchradd), yn cael eu dilyn gan wella parhaus a gweithredu (tua un o bob pum ysgol gynradd ac uwchradd ar gyfer y ddau gam).


5.3 Ni adroddwyd bod unrhyw ysgolion uwchradd wedi cyrraedd y cam cwmpasu (hunanwerthuso) (o'i gymharu ag un o bob saith ysgol gynradd) na'r cam gwerthuso (o'i gymharu ag un o bob deg ysgol gynradd).

5.4 Nododd grŵp bach o ysgolion (5 y cant) nad oeddent wedi dechrau datblygu eu dull ysgol gyfan.

[5] Data ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a gymerwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

**Cysylltiad â chydlynydd gweithredu neu dîm Ysgolion Iach lleol**

**Ffigur 5.1: A) Amlder y cysylltiad rhwng ysgolion a chydlynwyr gweithredu neu dîm Ysgolion Iach lleol i gefnogi datblygiad eu dull ysgol gyfan yn ôl adroddiadau ysgolion yn gyffredinol, a B) ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.**




Sylfaen: 136 (mae 'Ddim yn gwybod' yn cynnwys 2 ymatebwr nad oeddent wedi darparu ymateb)

Sylfaen: Ysgolion cynradd, 86 ('Ddim yn gwybod' yn cynnwys 2 ymatebwr nad oeddent wedi darparu ymateb); Ysgolion Uwchradd, 18

5.5 Fel y dengys Ffigur 5.1, nododd llai na hanner yr ysgolion (47 y cant) bod eu Cydlynydd Gweithredu neu dîm Ysgolion Iach lleol wedi cysylltu i'w helpu i ddatblygu eu dull gweithredu unwaith y tymor neu'n amlach. Er hynny, nododd cyfran uwch o ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd eu bod wedi derbyn cysylltiad cyson (tua dwy o bob tair ysgol uwchradd o'i gymharu â dwy o bob pum ysgol gynradd).

5.6 Dywedodd tua thraean yr ymatebwyr (32 y cant) fod eu hysgol wedi cael cysylltiad fel hyn yn llai aml nag unwaith y tymor neu byth, gyda'r patrwm yn debyg i raddau helaeth ar draws ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (gweler Ffigur 5.1).

5.7 O blith yr ymatebwyr a gafodd gysylltiad o'r fath, nododd tri chwarter (75 y cant) eu bod yn 'eithaf bodlon' neu'n 'fodlon iawn' ag ansawdd eu cefnogaeth, nododd 13 y cant eu bod 'rhywfaint yn fodlon' a dywedodd 4 y cant eu bod 'Ddim yn fodlon o gwbl'. Roedd y patrwm hwn yn debyg i raddau helaeth ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, er bod cyfran uwch o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn dweud eu bod 'eithaf bodlon' neu'n 'fodlon iawn' o'i gymharu ag ysgolion cynradd (dros dri chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu ag ychydig o dan dri chwarter yr ysgolion uwchradd).


**Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol**

5.8 Fel y dengys Ffigur 5.2, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio'r Fframwaith i ryw raddau, er bod 10 y cant o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o'r Fframwaith.

5.9 Nododd cyfran fwy o ymatebwyr o ysgolion uwchrads eu bod wedi gwneud 'Llawer iawn' neu 'Llawer' o ddefnydd o’r Fframwaith o gymharu ag ysgolion cynradd (tua thri chwarter yr ysgolion uwchradd o'i gymharu â hanner ysgolion cynradd) (gweler Ffigur 5.2).

5.10 Ymhlith ysgolion a oedd wedi defnyddio'r Fframwaith, roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd ychydig yn fwy tebygol o nodi bod y Fframwaith yn 'Ddefnyddiol iawn' neu'n 'Eithaf defnyddiol' (tua naw o bob deg ysgol uwchradd o'i gymharu ag wyth o bob deg ysgol gynradd).

**Ffigur 5.2: A) Defnydd o'r 'Fframwaith ar sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol' yn ôl adroddiadau ysgolion yn gyffredinol, a B) ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.**




Sylfaen: 136.

Sylfaen: Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd

**Adnodd hunanwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru**

5.11 Dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (71 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio'r adnodd hunanwerthuso i ryw raddau.

5.12 Yn gyffredinol, nid oedd 18 y cant o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r adnodd hunanwerthuso.

5.13 Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o adrodd eu bod wedi gwneud 'Llawer iawn' neu 'Llawer' o ddefnydd o’r adnodd hunanwerthuso o gymharu ag ymatebwyr ysgolion cynradd (tua dwy o bob tair ysgol uwchradd o'i gymharu â dwy o bob pum ysgol gynradd).

5.14 Ar gyfer ysgolion a oedd wedi defnyddio'r adnodd hunanwerthuso, nododd cyfran fwy o ymatebwyr o ysgolion uwchradd fod yr adnodd hunanwerthuso yn 'Ddefnyddiol iawn' neu'n 'Eithaf defnyddiol' (ychydig o dan naw o bob deg ysgol uwchradd o'i gymharu â thua thri chwarter yr ysgolion cynradd).

## 6. Casgliadau

6.1 Dylid dehongli'r canfyddiadau hyn yn ofalus oherwydd y cyfyngiadau a nodir yn yr adran ar fethodoleg.

6.2 Nododd bron pob un o'r ymatebwyr fod eu hysgol yn datblygu neu'n gweithredu eu dull ysgol gyfan, er bod amrywiaeth sylweddol rhwng y camau a gyrhaeddwyd gan bob ysgol.

6.3 Ni chafwyd adroddiadau cyson am gyfathrebu aml rhwng ysgolion a'u cydlynydd gweithredu pwrpasol/tîm Ysgolion Iach lleol:

- Er bod ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddweud iddynt gyfathrebu yn aml, nododd tua thraean o'r ymatebwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd eu bod wedi cyfathrebu yn llai aml nag unwaith y tymor, neu erioed wedi dod i gysylltiad o gwbl.
- Fodd bynnag, yn yr achosion pan fu cyfathrebu gyda’r ymatebwyr, roedd lefel dda o foddhad ag ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd.

6.4 Roedd tipyn o ddefnydd o'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, ac roedd yn digwydd yn amlach mewn ysgolion uwchradd:

- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio neu'n ymwybodol o'r Fframwaith ac yn adrodd bod y ddogfen hon yn ddefnyddiol.
- Roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn defnyddio'r ddogfen hon yn amlach ac yn ei chael yn fwy defnyddiol o gymharu ag ysgolion cynradd.

6.5 Roedd tipyn o ddefnydd hefyd o'r adnodd hunanwerthuso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac unwaith eto roedd hyn yn digwydd yn amlach mewn ysgolion uwchradd, er i raddau llai na'r Fframwaith:

- Er bod ymatebwyr wedi nodi lefelau ychydig yn is o ymwybyddiaeth, defnydd a gwerthfawrogiad o'r adnodd hunanwerthuso gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o gymharu â'r Fframwaith, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r adnodd neu'n ymwybodol ohono, ac yn ei gael yn ddefnyddiol.
- Unwaith eto, roedd ymatebwyr o ysgolion uwchradd yn defnyddio'r adnodd yn amlach ac yn ei gael yn fwy defnyddiol o gymharu ag ysgolion cynradd.
- Fodd bynnag, nid oedd tua un o bob pum ysgol yn ymwybodol o'r adnodd hunanwerthuso ac roedd y patrwm hwn yn debyg ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

6.6 Bydd dadansoddiad manylach o ganfyddiadau’r arolwg yn cael ei gynnal i gael gwell dealltwriaeth o sut mae ysgolion yn datblygu ac yn cyflawni eu dull ysgol gyfan.

Awdur y bwletin: Dr Daniel Burley, Llywodraeth Cymru.

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn y bwletin hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-992-1